# Cylchlythyr Cymru Can: Awst 2025



## Apêl gan Derek – peidiwch â gadael dyfodol natur i siawns

Ar hyn o bryd, Cymru yw un o'r gwledydd sydd wedi'u disbyddu fwyaf o ran natur ar y Ddaear, gydag un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu.

Mae **Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethu a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)** newydd, sydd dan graffu yn y Senedd ar hyn o bryd, yn gyfle nodedig i amddiffyn ac adfer natur yng Nghymru.

Ond ar hyn o bryd nid yw'n cynnwys targed sy'n rhwymo'n gyfreithiol i yrru adferiad natur - bwlch y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef cyn iddo basio.

Mae pob bod byw yn dibynnu ar ecosystemau ffyniannus. Mae angen aer a dŵr glân ar bob un ohonom, mynediad at natur ar gyfer ein llesiant, a bwyd i fyw.

Dyna pam **na allwn adael dyfodol natur i siawns**.






Yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, rydw i wedi galw am **gynnwys nod adfer natur clir ac uchelgeisiol o fewn deddfwriaeth** - un sy'n sbarduno gweithredu o'r diwrnod cyntaf, yn gosod cyfeiriad teithio clir, ac yn gosod dyletswydd hirdymor ar lywodraethau'r dyfodol i barhau i adfer bioamrywiaeth.

Siaradais â Phwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd i graffu ar Gam Un o'r Bil, gan herio Llywodraeth Cymru ar frys ein hargyfwng hinsawdd.

Os caiff ei basio nawr heb newidiadau, mae'n bosibl na fyddai'r Bil yn creu targedau tan 2029.

**Rhaid i Lywodraeth Cymru gamu ymlaen a chloi targedau cryf ar gyfer adfer natur yn y Bil Amgylchedd newydd — cyn iddi fod yn rhy hwyr.**






Er mwyn cefnogi'r cyrff cyhoeddus y bydd angen iddynt weithredu ar y ddeddfwriaeth sydd ar ddod hon a nodi Wythnos Natur Cymru, cynhaliwyd gweminar ar Fil yr Amgylchedd a'r hyn y mae'n ei olygu i gyrff cyhoeddus mewn cydweithrediad â Chyswllt Amgylchedd Cymru.

Cewch weld y weminar drwy ein sianel YouTube.

## A ddylem ni enwi tonnau gwres fel rydyn ni'n enwi stormydd?

Mae tonnau gwres mis Gorffennaf wedi arwain at lawer o erthyglau llawen ar sut i fwynhau'r haul.

Ond, os ydym yn parhau i drin gwres eithafol fel newyddion da am ddiwrnod ar y traeth, rydym yn rhoi ein pennau yn y tywod pan ddylem fod yn amddiffyn bywydau.


Rwyf wedi adleisio galwadau gan academyddion i enwi tonnau gwres fel stormydd.

Mae gwres eithafol yn dod yn fwy cyffredin oherwydd newid hinsawdd ac mae'n fwy marwol na llifogydd, daeargrynfeydd a chorwyntoedd gyda'i gilydd, gan gymryd tua 500,000 o fywydau'r flwyddyn.

Gallai enwi tonnau gwres achub bywydau trwy wneud peryglon anweledig gwres yn weladwy a helpu pobl, yn enwedig y rhai sydd fwyaf mewn perygl gan gynnwys pobl hŷn, plant a phobl incwm isel, i baratoi ar gyfer y risgiau.

Mae angen i ni hefyd gynnwys pobl a natur i ddod o hyd i'r atebion gorau i liniaru effeithiau tywydd eithafol.

Yn fy Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, rwyf wedi galw am i wydnwch ac addasu i'r hinsawdd ddod yn flaenoriaeth graidd i wasanaethau cyhoeddus ac wedi argymell, erbyn diwedd 2027,




y dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus asesu risgiau hinsawdd i'w cymunedau gyda chyrff cyhoeddus yn integreiddio'r canfyddiadau hyn i'w cynllunio corfforaethol a strategol.

Er enghraifft, mae asesiadau risg newid hinsawdd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgan wedi cynnwys cymunedau i ddeall sut y gallai digwyddiadau tywydd eithafol effeithio ar eu bywydau bob dydd. Ac ym Medellín, Colombia, maent wedi torri tymereddau 2°C trwy ddatblygu rhwydwaith o goridorau gwyrdd.

Nid tywydd yn unig yw tonnau gwres. Maent yn effeithio ar ein hiechyd, ein heconomi a'n hamgylchedd.

Os yw rhoi enwau i stormydd wedi chwarae rhan wrth achub bywydau, mae pob rheswm i gredu y gallai wneud yr un peth i donnau gwres.

Oherwydd nid yw'r argyfwng hinsawdd ar ddod - mae yma. A gwell i ni ddechrau ei enwi.

Darllenwch fy erthygl barn yn Wales Online - **'Heatwaves should be given names like storms - they are a danger to life'**.

## Ffermio a Bwyd Cynaliadwy

Cymru yw'r unig genedl yn y DU bellach heb strategaeth hirdymor ar fwyd.

Mae Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru yn gam i'r cyfeiriad cywir ond gyda heriau cenedlaethol anghydraddoldeb iechyd ac ansicrwydd bwyd oherwydd newid hinsawdd, mae angen dull cydgysylltiedig arnom lle mae polisïau ar y bwyd a gynhyrchwn a'r polisïau ar y bwyd a fwytawn yn gysylltiedig.

Yn fy [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025], rwyf wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun cydnerthedd bwyd cenedlaethol i sicrhau mynediad cyfartal at ddeietau cynaliadwy. Yn gadarnhaol, ers lansio'r adroddiad mae pedwar cyngor wedi bod mewn cysylltiad â'm tîm i gael cyngor ar ddatblygu strategaethau cydnerthedd bwyd lleol.

Mae'r [Cynllun Ffermio Cynaliadwy] a gyhoeddwyd y mis hwn yn rhan bwysig arall o'r pos hwn.

Bydd y cynllun hwn yn cefnogi ffermwyr yng Nghymru yn ariannol i gynhyrchu bwyd o'r radd flaenaf, o ansawdd uchel, tra hefyd yn gofalu am yr amgylchedd ac yn mynd i'r afael â newid hinsawdd ac addasu iddo.

Mae bwyd o ansawdd da yn hanfodol ar gyfer ein hiechyd a'n




llesiant. Mae diwydiant ffermio ffyniannus yn hanfodol ar gyfer economi wledig lewyrchus. A heb gyfranogiad gweithredol ffermwyr, ni fyddwn yn llwyddo i adfer ein natur ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mynychais Sioe Frenhinol Cymru yn Llanfair-ym-Muallt ac fe'm calonogwyd gan weld ymateb cadarnhaol gan ffermwyr. Er nad yw'r cynllun yn berffaith, mae'n cynnig ffordd ymlaen at system fwyd fwy cynaliadwy sy'n cefnogi ein hiechyd, ein cymunedau a'n hamgylchedd.

Ond mae'r blynyddoedd nesaf yn hollbwysig, mae angen i ni weld màs critigol o ffermwyr yn ymuno â'r cynllun a rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod ffermwyr yn cael eu cymell i gymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur cyn gynted â phosibl.

Yn Sioe Frenhinol Cymru, cefnogais hefyd lansio peilot Bwydlen Prydau Ysgol Cenedlaethau'r Dyfodol Cyngor Sir Caerfyrddin.

Gan weithio gyda Chegin y Bobl, bydd tair ysgol gynradd yn cyd-greu bwydlenni cinio newydd gyda chynaliadwyedd wrth wraidd eu gwaith gyda chynnyrch tymhorol o Fferm Bremenda Isaf.

Mae angen i fwy o awdurdodau lleol gydweithio ag eraill i sicrhau bod bwyd lleol, iach a chynaliadwy ar gael i bawb.

## Ymunwch â'n cynhadledd- Arwain Dyfodol Bwyd Teg

Mewn cydweithrediad â Miller Research, y Comisiwn Ffermio Bwyd a Chefn Gwlad, a'r Athro Kevin Morgan, rydym yn archwilio sut y gallai Cymru arwain y ffordd o ran sicrhau dyfodol tecach yn ein system fwyd.

Cyn Gŵyl Fwyd y Fenni, byddwn yn trafod sut y gallwn ddiwygio ein system fwyd i gefnogi ein hiechyd a'r GIG, rôl llythrennedd bwyd wrth lunio arferion gydol oes a'r hyn y gallwn ei ddysgu o ddulliau llywodraeth eraill.

Ymunwch â ni ddydd **Gwener 19 Medi** yn y Fenni - cofrestrwch eich diddordeb nawr.

Gyda siaradwyr yn cynnwys

- Thomasina Miers: Cyd-sylfaenydd Wahaca, a Chefs in Schools
- Derek Walker: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Sue Pritchard: Prif Weithredwr, Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad
- Yr Athro Kevin Morgan: Prifysgol Caerdydd, awdur Serving the Public: The good food revolution in schools, hospitals and prisons.
- Kim Smith: Ymchwilydd PhD yng Nghanolfan Polisi Bwyd a sylfaenydd TastEd




## Gall Cymru fod yn genedl o heddwch – Darlith Heddwch

Yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, traddodais y Ddarlith Heddwch Flynyddol ar gyfer Academi Heddwch Cymru ar sut y gall Cymru chwarae rhan tuag at hyrwyddo heddwch.

Rydym mewn byd sy'n teimlo'n fwy rhanedig, yn fwy ansicr, ac yn fwy anghyfartal nag erioed, ond mae gan Gymru straeon pwerus i'w hadrodd—straeon am heddwch, tosturi, a gofal am genedlaethau'r dyfodol.

O'n hetifeddiaeth a'n hanes o heddwch, i'n Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n arwain y byd, rydym yn gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Rydym yn edrych ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig i bobl ac yn gweithredu yn y tymor hir i amddiffyn ein dyfodol.

Oherwydd pan fydd teuluoedd yn iach, cymunedau'n gryf a natur yn ffynnu, dyna heddwch ar waith.

[Darllenwch fy narlith lawn ar-lein nawr.]




## Yr Iechyd a'r Gofal Cymdeithasol a Ddymunwn – sgwrs genedlaethol Llais

Does dim digon o bobl yn gwybod eu hawliau, beth y gallant ei ddisgwyl yn rhesymol gan wasanaethau iechyd, neu sut y gallant chwarae eu rhan eu hunain i aros yn iach.

Dyna pam mae Llais yn arwain yr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Garem: sgwrs genedlaethol am greu gwasanaethau cliriach, tecach a mwy person-ganolog yng Nghymru.

Ymunwch ag un o'u sesiynau rhyngweithiol ar-lein neu ewch i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb sy'n digwydd o fis Gorffennaf i fis Medi 2025 i rannu'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol rydych chi eu heisiau ar gyfer ein Cymru yn y dyfodol.

Dewch o hyd i'r rhestr lawn o ddigwyddiadau 'A Garem' a'u ffocws ar wefan Llais.




## Cysylltwch â ni

Am ddal i fyny ar rifynnau blaenorol y cylchlythyr? Dewch o hyd iddynt ar ein gwefan yma.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy:

cenedlaethaurdyfodol.cymru

cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

@futuregencymru

Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru

**Future Generations** Commissioner for Wales